

Sut gallwn wella dealltwriaeth y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwylliannedd?

	Targed	Yr hyn wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed 1	Prawf ddarllen yn ofalus i osgoi mân wallau.	Rwyf wedi darllen ac ail-ddarllen yr aseiniad er mwyn sicrhau fy mod yn osgoi man wallau.
Targed 2	Ehangu'ch darllen	Rwyf wedi ceisio ymchwilio i amryw o ffynonellau sy'n cefnogi ac sydd yn erbyn y pwnc dan sylw. Rwyf wedi ymweld ag amryw o leoliadau gan ddefnyddio'r we ynghyd a llyfrau o'r llyfrgell i'm cynorthwyo gyda'r ymchwiliad.
Targed 3	Anelu at fod yn llai disgrifiadol a mwy dadansoddol.	Anodd i ymateb i'r targed yma oherwydd natur yr aseiniad ond wedi ceisio bod yn fwy dadansoddol yn y manau sy'n caniatáu.

Cyflwyniad

Y mae fy ysgol wedi ei lleoli yn Ne - Orllewin Cymru, gydag oddeutu 425 disgybl rhwng tair ac un ar ddeg oed yn bresennol, gan gynnwys 66 o ddisgyblion yn y meithrin (Estyn, 2019). Daw tua chwarter ei ddisgyblion o gartrefi sy'n medru'r Gymraeg, ac ychydig iawn a ddaw o gefndir leiafrif ethnig (Estyn, 2019).

Gan fy mod yn dysgu 28 o blant dan bum mlwydd oed, yr oeddwn am sicrhau bod yr ymchwil yn hygyrch iddynt ond hefyd ein bod ni'n meddwl yn greadigol a thu hwnt i'r bocs. Cawsom ein cynghori gan y brifysgol i ymchwilio i mewn i Fathemateg neu iaith, serch hynny fe benderfynodd fy mhartner ymchwil a minnau bod y plant yn archwilio'r meysydd hynny digon o ddydd i ddydd. Roeddem o'r farn y gallem gyflwyno a datblygu dealltwriaeth newydd yn y plant, ac o gofio bod ein hardal yn un difreintiedig, roeddem yn teimlo y

byddai'r pwnc aml-ddiwylliannedd o ddiddordeb, ac yn berffaith ar gyfer ein prosiect ymchwil.

Wedi llawer o drafodaeth gyda'n darlithwyr a'n gilydd, daethom i'r penderfyniad taw 'Sut gallwn ddatblygu dealltwriaeth disgyblion y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwylliannedd' fydd ein cwestiwn. Nid yw aml - ddiwylliannedd yn hybu disgyblion 'egwyddorol a gwybodus' (Donaldson, 2015) yn unig, ond y mae'n ymgorffori'r syniad o addysg hygyrch i bawb a chyfle cyfartal i ddysgu yn yr ysgol (Banks & Banks, 2007). Dywed Barber (2008, t9) 'This multicultural perspective underlines the recognition of gender, ethnicity and race, alongside the desirability of cultural diversity and the internal plurality of cultures'. Rhywbeth sydd yn hynod o berthnasol gyda chyflwyniad cwricwlwm newydd Donaldson sy'n gwrthio'n genhedlaeth nesaf i fod yn aelodau teilwng o'r gymdeithas sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol ac sy'n deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu (Donaldson, 2015).

Methodoleg

Y fethodoleg y byddwn yn ei ddefnyddio er mwyn ein cynorthwyo gyda'r ymchwil hon yw Astudiaeth Gwers Dudley (AG), sy'n fath o ymchwil gweithredol. 'Lesson study is a process of improvement that is expected to produce small, incremental improvements in teaching over long periods of time' (Strigler a Hiebert 1999: t121). Mae'n broses sy'n gofyn am fuddsoddiad amser ac amynedd, ac o ganlyniad, nid yw'n ennyn diddordeb nifer o ysgolion sy'n chwilio am dechnegau gydag effeithiau cyflym, ond nid o reidrwydd effeithlon yn yr hir dymor. Cyfieithwyd o'r term **kenkyu jugyou** a'i ddiben yw gwella ansawdd addysgu drwy broses 'reflexive, recursive and collaborative' yn ôl Dudley (2011, 5). Drwy ganiatáu i athrawon gyd-weithio â'i gilydd o fewn cymunedau proffesiynol sefydledig, cawn gyfle i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddysgu ein myfyrwyr, ynghyd a datblygu a meistroli dulliau addysgeg ein hunain. Daw AG o bersbectif cymdeithasol - ddiwylliannol, a adeiladwyd ar sail waith gwreiddiol Vygotsky (1978), a awgrymodd bod yna berthynas arbennig rhwng y defnydd o iaith a'r meddwl. Drwy gyfuno eu hadnoddau deallusol, mae grwpiau yn gallu cydweithio er mwyn mynd i'r afael â phroblem a gweithio tuag at nod yn fwy effeithiol, gan ehangu ar ddealltwriaeth na allent fod wedi cyflawni ar eu pen eu hun.

Wrth gynnal ein hastudiaeth gwers, bwriadwn aros yn driw i ddull Dudley drwy ddefnyddio'r tair elfen hanfodol yr awgrymodd sef, ymchwil, cyfarfod cynllunio a chyfnod myfyriol (Dudley, 2013 - gwelir atodiad 1). Yn ystod cyfarfodydd cynllunio, bwriadwn ystyried nodau'r

wers ymchwil, gan ddewis tri disgybl (gallu is, canolig ac uwch) i'w fonitro'n ofalus gan greu cynllun gwers drylwyr ar gyfer ein hymchwiliad (gwelir atodiad 7) a fydd yn cynnig y canlyniadau gorau posibl i ni. Yn y cyfarfodydd myfyriol, byddwn yn myfyrio ar y wers ymchwil trwy werthuso cynnydd pob disgybl mewn perthynas â'r meini prawf llwyddiant a bennwyd ymlaen llaw (gwelir atodiad 2). Ystyriwn ddata'r cyfweiliad a'u gwerthuso mewn perthynas â dysgu'r disgyblion (y tri o'r grŵp ffocws), ynghyd ag ystyried pa agweddau o'r addysgu y gellid eu haddasu i wella cynnydd disgyblion o fewn ac ar draws y dosbarth a'r dalgylch.

Mewn sawl rhan o fywyd, rydym yn casglu gwybodaeth drwy wahanol fathau o ryngweithio ag eraill. Yn ôl Monette et al (2011: t156) 'an interview involves an interviewer reading questions to respondents and recording their answers. Awgryma Arksey a Knight (1999:76) y gall mwy nag un cyfweilai ddarparu dau fersiwn gwahanol o'r un digwyddiad- croeswiriad- a gall un ategu at y llall, gan arwain at gofnod mwy cyflawn a dibynadwy o'r ymchwil dan sylw. Mae hefyd yn bosibl canfod sut mae'r cyfranogwyr yn cefnogi, dylanwadu, ategu, cytuno ac anghytuno â'i gilydd, ynghyd a'r berthynas rhyngddynt. Mi fydd cyfweiliad ein grŵp ffocws yn ddefnyddiol iawn, ond y bydd yn bwysig i ni ystyried byd y plant drwy eu llygaid eu hunain yn hytrach na lens yr oedolyn (Arksey & Knight, 1999). Mae plant yn wahanol i oedolion o ran datblygiad gwybyddol ac ieithyddol (Arksey & Knight, 1999, t.116) ac felly awgryma Mayall (1999) y dylwn ystyried plant fel 'grŵp lleiafrifol', gan nad oes ganddynt y grym na'r rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae'n bwysig ein bod ni felly yn cymryd y camau priodol i sicrhau y rhoddwn lais i'n grŵp ffocws ac y cyflwynir cyfweiliad lle y teimlant yn gyfforddus. Byddwn yn sicrhau bod y cyfweiliad yn digwydd mewn lleoliad mor agos i'r ardal naturiol â phosibl, gan sicrhau ein bod yn ystyried a yw'r plant yn gyfforddus ac yn hapus i gydymffurfio yn ystod pob agwedd o'n prosiect.

Un o nodweddion arbennig arsylwi yw ei fod yn cynnig cyfle i ymchwilydd gasglu data 'byw' o sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n digwydd yn naturiol. Mae atyniadau eraill o'i blaid hefyd fel y cynigir Robson (2002: t310) sy'n datgan, gall yr hyn y mae pobl yn eu gwneud fod yn wahanol i'r hyn y maen nhw'n dweud. Y mae arsylwi felly yn darparu tystiolaeth llaw gyntaf i ymchwilydd (Cooper & Schindler, 2001: t374) sy'n cael ei nodi ar ffurf nodiadau adfyfyriol y gellid eu dehongli mewn amryw o ffyrdd gan sawl unigolyn.

Arsylwi di-gyfranogol, y dull y defnyddiwn ni er mwyn casglu'n data, yw pan nad ydych, fel ymchwilydd, yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r grŵp ond yn parhau i fod yn arsylwr goddefol, yn gwyllo ac yn gwrando ar y gweithgareddau ac yn dod i gasgliadau ar sail hyn

(Kumar, 2014). Mae gan arsylwi di - gyfranogol y fantais o ganiatáu i'r arsylwr ganolbwyntio ar y dasg arsylwadol heb i gyfrifoldebau eraill dynnu ei sylw er mwyn cadw nodiadau trylwyr a dibynadwy (Papatheodorou et al, 2013). Dylem sicrhau yn ystod y prosiect bod ein lleoliad a'n safle dewisol o fewn y dosbarth yn anymwthiol ac nid yn ymyrryd ar weithrediad bob dydd y lleoliad neu weithgareddau'r plentyn, er mwyn cynnig digon o amlygrwydd i ni gael mynediad a chofnodi'r hyn sy'n digwydd yn bwrpasol (Sternberg 2005; Delamont 2002).

Ystyriaethau Moesegol

Arhoswn yn driw i'n ffurflen foesegol wrth gynnal yr ymchwiliad hwn (gwelir atodiad 3), gan ddilyn canllawiau CCUHP wrth sicrhau 'Every child has the right to express their views, feelings and wishes in all matters affecting them, and to have their views considered and taken seriously' (UNCRC, 1989) gan gynnig cyfle i'r plant i gynnig barn deilwng ar sail yr hyn a ddysgwyd neu i beidio lleisio barn os dyma y maent yn dymuno. Byddwn yntau yn sicrhau ein bod yn dilyn canllawiau BERA (2019) drwy 'operate within an ethic of respect for any persons, involved in or touched by the research they are undertaking'. Byddwn yn trin unigolion yn deg, sensitif, a chydag urddas, gan gydnabod eu hawliau a'r gwahaniaethau sy'n codi o ran oedran, rhyw, ethnigrwydd, dosbarth, cenedligrwydd, hunaniaeth ddiwyllianol, ffydd, anabledd neu unrhyw nodwedd arwyddocaol arall. Ystyriaeth hynod o bwysig o ystyried goled eidd ein hymchwiliad. Mi fyddwn yn dilyn canllawiau a gofynion y Brifysgol (2018) mor fanwl â phosib er mwyn sicrhau bod lles a diogelwch y plant yn ganolog trwy gydol ein hymchwil (gwelir y ffurflen foeseg - atodiad 3 am wybodaeth bellach).

Trosolwg o'r Llenyddiaeth

Edrychais ymhellach i mewn i'r pwnc gan ddarllen llyfrau ac erthyglau ar aml-ddiwylliannedd â phlant, er mwyn cynnig mewnweliad ddyfnach i mi o'r rôl annatod y mae diwylliant yn chwarae yn ein cymdeithas ni heddiw, a sut y dylem ni fel addysgwyr sicrhau a gwella dealltwriaeth y genhedlaeth nesaf o ddiwylliant. Gyda'n byd yn esblygu'n barhaus, dylwn ymdrechu i fod ar y blaen gyda phethau megis diwylliant, gan sicrhau bod ein plant yn barod i brofi a rhoi cynnig ar bethau newydd, gan ystyried bod gwahaniaeth yn rhywbeth i ddathlu, nid rhywbeth i rusio ohoni neu sarhau.

Noda Tabors (1998) taw un o'r dyletswyddau sydd gan athrawon yw cefnogi diwylliant plentyn yn yr ysgol ynghyd a chynorthwyo eu datblygiad cyfannol, yn ogystal â'u hymdeimlad o berthyn. Adleisiai'r ddadl gan Gerrity (2003) sy'n pwysleisio taw agwedd hanfodol ar gyfer

datblygiad plentyn yw datblygu hunaniaeth gadarnhaol yn ogystal â hunaniaeth ddiwyllian-nol.

Un ffordd y gallan gefnogi datblygiad hunan- ddiwylliannol plentyn yn effeithiol yw trwy'r defnydd o aml - ddiwylliannedd beirniadol, addysgeg sy'n cefnogi cyfiawnder cymdeithasol a chydbwysedd pŵer rhwng diwylliannau (Chan, 2011). Dywed Chan (2011) yntau bod perthnasoedd cydweithredol rhwng athrawon a theuluoedd yn cael ei hyrwyddo trwy'r ymarfer o aml-ddiwylliannedd beirniadol, gan ei fod yn annog athrawon i archwilio lens diwylliant plentyn er mwyn cefnogi eu datblygiad cyfannol yn fwy effeithiol (Berk, 2006). Cefnogir aml-ddiwylliannedd beirniadol gan Te Whariki, sy'n nodi y dylai diwylliant a datblygiad cyfannol plentyn gael ei gefnogi gan athrawon, wrth iddyn nhw atynnu sylw at bwysigrwydd diwylliant ar gyfer lles a datblygiad plant (Y Weinyddiaeth Addysg - MoE, 1996). Gwelir Berk (2006) hyn yn hollbwysig hefyd gan fod plant yn datblygu o fewn cyd-destunau diwylliannol, felly mae diwylliant yn effeithio ar y ffordd y maen nhw'n meddwl ac yn dysgu yn yr hirdymor.

Ystyrir hyn yn hynod o bwysig yng nghyd-destun dealltwriaeth plant o aml-ddiwylliannedd yn fy ardal i. Mewn ardal ddifreintiedig, fel yr un y mae fy ysgol wedi trigo ynddi, lle mae aml-ddiwylliannedd yn isel, nid yw addysgwyr o reidrwydd yn gweld yr angen neu'r alwad am bersbectif aml-ddiwylliannol. Gallwn ddweud bod hyn o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth ar ran addysgwyr yn y sector. Er bod Cymru bellach yn wlad amlddiwylliannol, gyda dros 169 mil o bobl yn dod o gefndir lleiafrif ethnig (gov.wales, 2020), mewn dinasoedd mwy megis Caerdydd (68,000) neu Abertawe (24,800) yn bennaf mae'r niferoedd mwyaf yn byw. Gallem ddadlau felly nad yw aml-ddiwylliannedd wedi gwneud ei farc eto ar ardaloedd llai, ac o ganlyniad daw'r diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth. Fodd bynnag, ni ddylai hwn fod yn esgus, bellach mae gennym yr offer a'r wybodaeth i sicrhau dealltwriaeth ar lefel llawer ddyfnach i'n plant, a gyda chyflwyniad cwricwlwm newydd Donaldson sy'n ymdrechu am fyfyrwyr 'egwyddorol a gwybodus' (Donaldson, 2015) dylwn sicrhau ei fod yn flaenoriaeth ar ein rhestr.

Rhanna Tillman a Belgrave yr un farn wrth iddyn nhw ddatgan ei fod yn bwysig i blant profi a thrafod diwylliannau newydd. Fel bod plant yn gallu gwerthfawrogi'r cysyniad o aml-ddiwylliannedd, mae cydweithio o fewn, ac ar draws sectorau gwahanol, gan gynnwys yr ysgol a'r gymuned ehangach yn hanfodol er mwyn gwneud ystyr o'r gwahaniaethau sy'n ein mysg. Aiff y ddwy gam ymhellach trwy ddatgan bod deall yr hyn y maent wedi eu caffael a'u dysgu yn sicrhau eu bod yn gallu ei gymhwyso i'w perthnasoedd ag eraill i'r dyfodol (Tillman & Belgrave, 2001).

Cydnabyddir Banks a Banks (2007) ein bod yn byw mewn byd peryglus, dryslyd a chythryblus sy'n mynnu, arweinwyr, addysgwyr ac athrawon dosbarth sy'n gallu pontio'r ffiniau diwylliannol, ethnig a chrefyddol anhydraidd ynghyd a rhagweld posibiladau newydd, dyfeisio paradeimau a chymryd rhan mewn trawsnewidiadau personol a gweithredu'n weledigaethol. Noda'r ddau '...most people do not want to live in a plural monoculturalist "salad bowl"' (Banks & Banks, 2007, t.V). Dyfeisiwyd y trosiad 'salad bowl' er mwyn cynhyrchu'r ddelwedd amlddiwylliannol, ac i symud i ffwrdd o'r effaith ungnwd gan nad oedd yn ffocysu ar wahaniaethau na diwylliant. Dylai aml-ddiwyllainedd, ar y lleiaf, bod yn gydnabyddiaeth ddymunol o amrywiaeth ddiwylliannol o fewn cymdeithas luosog. Ond yn anffodus gan na allwn fyth gyflawni nodau cymhwysiad amlddiwylliannol yn llawn yn ôl Banks & Banks, dylem weithio'n barhaus i gynyddu cydraddoldeb addysgol i bob myfyriwr (Banks & Banks, 2007). Dylwn ystyried cymhwysiad amlddiwylliannol felly fel proses barhaus, nid rhywbeth y gellid eu datrys ar unwaith ond rhywbeth sy'n parhau dros gyfnod wrth i'n dealltwriaeth o'r byd a'u rhyfeddodau wella (Banks & McGee, 2009).

Yn groes i hyn gwelai Parekh (2000: t2-3) diwylliant fel 'a body of beliefs and practices in terms of which a group of people understand themselves and the world they organize their individual and collective lives around'. Y mae hunaniaeth ynghyd a gwahaniaethu wedi eu gweddu â aml-ddiwylliannedd fel y mae Bolton (2010: t67) yn atgyfnerthu wrth ddweud 'We are all culture bound - physically, socially, psychologically and spiritually. We might change that culture, but can never make ourselves culture free'. Nid oes dianc rhag diwylliant, gan nad oes dianc rhag aml-ddiwylliannedd ac fel y dywed Pathak (2008) dylwn weld aml-ddiwylliannedd fel dathliad o'r gwahaniaethau mewn bywyd cyfoes, gan werthfawrogi hwy a neilltuo amser teilwng iddyn nhw.

Dadansoddi'r ymchwil – astudiaeth gwers 1

Nod ein gwers oedd ceisio gwella dealltwriaeth y plant o aml-ddiwylliannedd ym mlwyddyn 1 ac yn y derbyn. Dechreuodd y wers ymchwil gyda phlant blwyddyn 1 a diffyg ymwybyddiaeth o wledydd y byd, er eu bod nhw'n gallu enwi baner Cymru, yr oedden nhw'n ansicr i ba wledydd (Awstralia, Lloegr, Ffrainc ac UDA) eraill yr oedd y baneri yn perthyn. Yr oedden nhw o'r farn bod nifer y pethau a oedd yn rhan o'r PowerPoint hefyd yn dod o Gymru gan gynnwys y baguette o Ffrainc ynghyd a *Big Ben* o Loegr. Yr oedd y plant i gyd, nid dim ond y grŵp ffocws, wedi ymgysylltu yn llwyr i'r gweithgareddau amrywiol yr oedden ni'n dwy wedi eu paratoi iddynt. Yr oedd y dasg ffocws lle cafodd y plant y cyfle i flasau a theimlo gwahanol eitemau a bwydydd, gan gynnig safbwyntiau ynghyd a dyfalu o ba

wlad yr oedd y bwyd/eitem yn dod, yn rhywbeth a llwyddodd i ddenu diddordeb. Gan fod y dasg ffocws yn rhywbeth ymarferol ac yn sbardun gweledol, yr oedd y plant yn fwy parod i gymryd rhan a chynnig ymateb. Pwysleisia Desailly (2012, 12) effaith tasgau ymarferol, creadigol gan ddweud ei fod yn caniatáu i ddysgwyr:

‘think ‘outside the box’, be self-expressive, have new ideas, be risk-takers, use imagination, have fun, make something new, it involves music, dance, art, drama, inventing, working together, innovation, individuality’

Yr oedd y gweithgaredd ymarferol hwn yn caniatáu i'r plant cael y cyfle i ymgysylltu hefyd a chyd-destunau bywyd go iawn, dilys, gan gynnig cyfleoedd iddynt ehangu ar eu profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol, gan roi enghreifftiau ymarferol o gysyniadau a haniaethau iddynt (hwb.gov, 2020). Yr oedd yr ymchwil hefyd yn gweddu yn berffaith gyda chwricwlwm y cyfnod sylfaen ac yn benodol yr agwedd ‘Dealltwriaeth o'r Byd’. Yr oedd gofyn i'r plant archwilio i wledydd eraill gan gynnig profiadau iddynt sy'n eu helpu i gynyddu eu chwlfrydedd ynghylch y byd sydd o'u cwmpas a'u helpu i ddechrau deall, pobl a lleoedd, gan ddangos gofal, cyfrifoldeb, consŷrn a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd (gov.wales, 2015, t.42).

Wrth ystyried hyn yn ôl lensys Brookfield (2005), ac yn bennaf llygaid y myfyrwyr (gwelir atodiad 4) yr oedd yn amlwg erbyn diwedd y wers bod y plant wedi deall bod pawb yn wahanol ac ar y cyfan yn eu hymatebion yr oedden nhw'n ddilys ac yn gywir wrth ymateb i aml-ddiwylliannedd. Yr oedd bron pawb wedi deall bod gwahanol bethau yn gysylltiedig â'r gwahanol wledydd boed hynny'n fwyd, dillad neu draddodiad. Mynegasant eu barn gan bwysleisio pwysigrwydd parchu gwahaniaethau eraill yn ogystal â bod yn ffrind i bawb yntau'n cyd-fynd gyda barn Pathak (2008) o ddatlu a mwynhau diwylliant ac nid beirniadu neu sarhau.

Ar y cyfan fe aeth diwrnod cyntaf yr ymchwiliad yn llwyddiannus, gyda fy mhartner ymchwil a minnau yn cytuno bod angen man newidiadau (gwelir atodiad 4) erbyn i ni ail-gynnal yr ymchwiliad gyda fy nosbarth derbyn y diwrnod canlynol. Y prif beth fe benderfynon ni i ddiwygio oedd y bocs teimladau, gan ein bod ni o'r farn nad oedd yn effeithiol nac wedi ychwanegu at ganfyddiadau ein hymchwiliad, oherwydd bod y plant yn gallu gweld beth oedd yn cael ei roi yn y bocs ac o ganlyniad yn cynhyrfu. Gallwn fynd mor bell a dadlau bod hyn wedi effeithio ar ymatebion y plant, gan eu bod nhw'n dewis pa eitemau o fewn y bocs yr oedden nhw'n mynd i'w gyffwrdd, aroglu a blasu ar sail yr hyn yr oedden nhw'n gallu

gweld. Nid oedd y dewis yn anhysbys ac felly yn effeithio ar ymatebion y plant i'r eitemau gwahanol, ac nid yn cynnig canfyddiadau teilwng na dilys.

Gwelwyd hefyd ein bod ni wedi defnyddio gormod o eitemau/bwyd ac yr oedd blwyddyn 1 wedi gweld hyn braidd yn heriol gan fod y dasg wedi cymryd cryn dipyn o amser. Erbyn diwedd y dasg yr oedd yn anodd cadw sylw ac ennyn diddordeb y plant, yn enwedig y disgyblion mwy aflonyddus, bywiog. Wrth ail-gynnal yr ymchwil gyda fy mhlant i, penderfynon ni y byddwn yn lleihau ar y nifer o fwyd/ eitemau er mwyn cynnal y gweithgaredd yn gynt. Yr ail-dro yr oedd y plant yn mynd i gyffwrdd, arogl i blasu gwahanol eitemau/bwyd, gan roi barn a cheisio pennu o ba wlad yr oedden nhw wedi dod.

Yn bersonol gwelaf fod y dull a defnyddiwyd i gasglu'r dystiolaeth (gwelir atodiad 2 a 4) yn hygyrch ac yn syml i'w ddeall. Yr oedd yn glir, cryno ac yn darparu'r dystiolaeth a oedd yn angenrheidiol arnom ar gyfer ein hymchwiliad, heb orfod chwilota trwy ddata diddiwedd gan beidio dod i gasgliad terfynol. Yr unig beth y byddwn yn newid er mwyn sicrhau data mwy dilys a dibynadwy yw cael gwared ar y bocs teimladau yn ystod y dasg ffocws er mwyn tawelu meddyliau'r plant yn fwy.

Dadansoddi'r ymchwil – astudiaeth gwera 2

Dechreuodd y wers yma'r un fath ag un flwyddyn 1, gyda'r plant yn ansicr o beth oedd y baneri, yn gallu enwi baner Cymru oherwydd cydnabyddiaeth o'r ddraig, ond wedyn yn enwi pob baner (Awstralia, Lloegr, UDA a Ffrainc) a oedd yn dilyn hefyd yn Gymru. Serch hyn, llwyddodd pawb i gyflawni yn ystod y wers, er nad oedd yr unigolion gallu is yn gallu galw i gof yr hyn yr oedden nhw wedi dysgu yn ystod y cyfweiliad, wedi derbyn cymorth gan yr unigolion gallu uwch yr oedden nhw wedi gallu cynnig ymateb o ryw fath. Gwelwn ddysgu'r plant yn amlwg wrth i'r unigolion gallu uwch yn y grwp ffocws sbarduno trafodaeth a'r unigolion gallu is, a oedd wedi cyfrannu yn dilyn atgyfnerthiad gan eu cyfoedion.

Yr oedd y man newidiadau hefyd yn llwyddiant, gosodwyd y bwyd ar y bwrdd ar ddechrau'r wers ac yr oedd hyn wedi ennyn diddordeb y derbyn yn syth, eto yr oedd y sbardun gweledol yn hynod o bwysig gan eu bod wedi sicrhau sylw a pharodrwydd gan y plant o'r cychwyn cyntaf. Yr oedd y dasg ffocws yn llwyddiant wrth i'r plant blasu'r bwyd a chynnig safbwynt ynglŷn y ffordd yr oedd yn teimlo, arogl i blasu. Gwthiais yr unigolion gallu uwch, gan ofyn o ba wlad yr oedden nhw'n credu y daw'r bwyd e.e. y baguette (Ffrainc), kangaroo (Awstralia) gan wedyn ofyn iddyn nhw hefyd ymgysylltu'r pethau eraill o'r PowerPoint gyda'r baguette e.e. Disney neu'r gair newydd Bonjour yr oedden nhw wedi dysgu. Yr oedd hyn yn

sicrhau dilyniant yn eu dysgu ond hefyd yn atgyfnerthu'r dysgu blaenorol o ddechrau'r wers. Nid yn unig oedd ein hymchwiliad yn hybu'r ymdeimlad o ddinasyddion 'egwyddorol a gwybodus' (Donaldson, 2015), ond hefyd yr oedd yn hybu'r ymdeimlad o unigolion uchelgeisiol a mentrus a oedd yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau wrth adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt (Donaldson, 2015, t.29).

Dengys nodiadau'r cyfweiliad dealltwriaeth y plant o aml-ddiwylliannedd erbyn diwedd y wers, er ar lefel sylfaenol, yr oedd fy nosbarth derbyn wedi deall pwysigrwydd parchu eraill, er yn methu cynnig rheswm ac hefyd yn cydnabod y cysyniad o fod yn ffrind i bawb waeth beth y cefndir.

Cyfweilydd - da iawn ti. Oce, felly ydy e'n bwysig i ni barchu pobl? Respect people? Barchu pobl? Chi'n credu Plentyn N? Yw e'n bwysig i barchu pobl? Respect people sy'n dod o wahanol wledydd? Ti'n credu?

Plentyn N - ydy

Cyfweilydd - Pam ? Ti'n gwybod pam? (dim ymateb) Plentyn T yn gallu helpu ? Yw e'n bwysig i barchu pobl? To respect pobl? (nodio pen) Pam? Ti'n gallu helpu? (dim ymateb) Wyt ti'n gallu helpu Plentyn J? Ydy e'n bwysig i barchu pobl? Respect people? Ydy?

Plentyn J - because ... because... ummm Because I don't know.

O ran diwygio'r wers hwn ar gyfer dosbarth yn y dyfodol, efallai gallwn roi mwy o bwyslais ar wahaniaethau eraill gan ei wneud yn fwy eglur i'r plant. Er eu bod nhw wedi deall y cysyniad o gwblhau'r tasgau i gyd yn y cylchdro, efallai nad oedd y cysyniad o aml-ddiwylliannedd yn ddigon clir yn ystod ein tasg ffocws. Yr oedd y plant yn deall bod gwahanol bethau yn perthyn i wahanol wledydd ond nid o reidrwydd yn deall pam. Gallwn ddadlau bod hyn i lawr i ddifffyg amser, er llwyddodd y plant i gaffael llawer o wybodaeth o fewn amser byr, ni oedd modd i ni ehangu ar y ddealltwriaeth hynny o fewn yr amser rhoddedig. Y mae syniadaeth Banks a McGee (2009) yn dwyn i gof wrth ystyried amser, gan eu bod nhw'n gweld y broses yn hirfaith ac yn ddiddiwedd, gyda'r dysgu yn parhau dros amser pe-tai'r cyfle gennym. Dylwn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth y plant o gwbl mewn cyfnod mor fyr, ac yn sicr byddwn yn ail-ymweld a'r pwnc yn y dyfodol os godith y cyfle.

Wrth ystyried dysgu'r plant eto trwy lens Brookfield (2005) gallwn fod wedi addasu rhai o'r gweithgareddau er mwyn cynnig darpariaethau parhaus i'r plant wrth chwarae rôl gan ddefnyddio'r gwahanol eitemau o ddillad sy'n perthyn i'r gwledydd e.e. beret i Ffrainc, brogues i

Loegr a'r wisg Gymreig i Gymru (atodiad 5). Trwy wneud hwn mi fydd y plant eto yn ehangu eu dealltwriaeth am aml-ddiwylliannedd ac yn gwerthfawrogi traddodiadau gwahanol wledydd yn fwy. Rhywbeth hynod o bwysig eto yn ôl Tillman a Bellgrave (2001) sy'n pwysleisio'r angen i blant brofi a chael eu trochi o fewn diwylliant er mwyn cael gwir ddealltwriaeth ohono yn yr hir dymor. Y mae Amini et al (2018) yn cryfhau'r ddadl gan gyfaddef bod gan ddiwylliant rôl hanfodol yn y maes addysgegol, wrth wella twf personol ynghyd a chyfrifoldeb cymdeithasol unigolion.

Fe ddysgon ni fod dealltwriaeth y derbyn yn wannach na hynny o flwyddyn 1, ond yr oeddwn yn ymwybodol o hyn wrth gynnal yr ymchwil ac wedi sicrhau bod pethau mewn lle, er mwyn galluogi eu bod nhw'n gallu caffael a deall peth gwybodaeth. Rwy'n credu ein bod ni wedi ceisio cadw hynny mewn cof wrth baratoi at ein hymchwiliad gyda'r ddwy daflen arsylwi a myfyrio (atodiad 2,4,5). Y mae'r ddwy yn hygyrch ac rydym yn gallu cymhwyso'r wybodaeth gan y derbyn a blwyddyn 1. Nid wyf yn credu bod angen i ni newid ein dull ymchwil er mwyn rhannu ag eraill, ond fel y cynigwyd yn rhan o'r atodiadau (4, 5), dylem ail-ystyried geiriad y daflen arsylwi er mwyn sicrhau eglurdeb a chywirdeb wrth raeadru.

Canfyddiadau

O'r ymchwil rwy'n credu'r prif beth y dysgais a darganfyddais i yw bod plant yn llawer mwy sylwgar a chraff nag yr ydym yn ei feddwl. Mewn gwirionedd fe wnaethon nhw syfrdanu fi a'm partner ymchwil gan ystyried bod ganddynt rywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth eisoes ynghylch y pwnc dan sylw, ond nid yn gwybod sut i gymhwyso'r wybodaeth honno oherwydd diffyg profiad yn y byd go iawn.

Gwelir y theori ddiwylliannol gymdeithasol dysgu fel myfyrio cymdeithasol diwylliannol (Wink & Putney, 2002). Felly wrth edrych drwy lens y plentyn y mae'n ofynnol i athrawon weithredu yn ôl arferion cwricwlwm sy'n ddiwylliannol sensitif ac yn gymharol â phrofiadau'r plentyn, gan gymryd diffyg profiad yn y byd go iawn gydag aml-ddiwylliannedd mewn i ystyriaeth. Llwyddon ni i wneud hwn yn ystod yr ymchwil gan ein bod wedi deall anghenion y plant ynghyd a'u naïfrwydd. Cyflwynon ni'r pwnc ar eu lefel nhw, gan osod sylfaen ar gyfer datblygiad pellach o brofiadau newydd yn y dyfodol sy'n hygyrch i ddisgyblion y derbyn a blwyddyn , ac mewn gwirionedd unrhyw oedran.

Yn ystod y cyflwyniad byr i aml-ddiwylliannedd a gafodd y plant, yr oedd yn amlwg eu bod nhw'n llawer mwy dderbyngar o aml-ddiwylliannedd a gwahaniaethau nag y byddai

oedolyn, ac yr oedd eu parodrwydd a'u hawydd i fod yn rhan flaenllaw o'r gweithgareddau yn ystod y wers yn atgyfnerthu hyn. Dangosodd y wers bod gan y plant foesau wrth iddynt gydnabod ei bod yn bwysig i barchu gwahaniaethau eraill ynghyd a bod yn garedig, yn ffrind i bawb. Cysyniad syml, ond hynod o bwysig, hyd yn oed o oedran ifanc. Er efallai erbyn diwedd y wers yr oedd aml-ddiwylliannedd dal yn bwnc anodd iddynt, yn anoddach i'r derbyn oherwydd oedran ac anaeddfedrwydd, yr oedd yn amlwg bod y plant wedi deall bod gwahaniaethau yn eu cymuned a'i bod yn bwysig i gydnabod a pharchu'r bobl hynny waeth beth yw eu rhyw, crefydd neu ddiwylliant. Atgyfnertha trawsgrifiad y sgript hon yn glir (gwelir atodiad 6).

Casgliadau

Yn bresennol, nid wyf yn credu ein bod ni wedi gwneud digon er mwyn ateb ein cwestiwn ymchwil. Er ein bod ni wedi datblygu peth dealltwriaeth ym mhiant y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwylliannedd, nid wyf yn credu ein bod ni wedi archwilio'r cwestiwn yn ddigonol. Y mae'r pwnc aml-ddiwylliannedd yn fyd-eang ac yn ddryslyd ac yr wyf yn credu nad oeddwn wedi rhoi'r cyfle orau i'n hunan i sicrhau dealltwriaeth gadarn ar ran y plant. Yr oedd y dull o gasglu data (fel y gwelwch yn atodiad 3) yn fodd hygyrch a syml ac felly byddwn yn dadlau ei fod yn gryfder yn ystod ein hymchwiliad. Yr oedd y disgrifiadau yn glir ac yr oeddwn i a fy mhartner ymchwil yn glir o beth oedd yn ofynnol a pha dystiolaeth yr oedden ni'n chwilio amdano. Yr oedd modd asesu'r plant ffocws, y tri a dewiswyd (uwch, canolig ac is) yn ôl y raddfa ar sail yr hyn a welwyd a chlywyd wrth iddyn nhw raeadru yn ystod y cyfweliad. Serch hynny, fel y mynegwyd yn flaenorol, yr oedd geiriad y disgrifiadau lefel, braidd yn aneglur, a gallen ni wedi'u haddasu er mwyn sicrhau data mwy dibynadwy ac eglur i'r ymchwiliad. Er fy mod i a'm partner ymchwil yn deall y categorïau gwahanol, gan fod geiriad y pump yn debyg yr oedd yn anodd pennu ym mha gategori y dylwn osod y plant dan sylw. Ni fyddwn yn dweud ei fod yn wendid, ond efallai rhywbeth i addasu petai ni'n ail-gynnal yr ymchwiliad eto yn y dyfodol, er mwyn hwyluso'r dadansoddi i ni.

Ar y cyfan yr oedd y dull yn ddilys gyda fy mhartner ymchwil a minnau yn gwirio ein bod yn gytûn gyda'r canfyddiadau cyn cofnodi un rhywbeth ar bapur. Rhywbeth a allai effeithio ar ddilysrwydd y dull yw'r ffaith dim ond safbwynt dau unigolyn yw'r data, ac nid ydym yn arbenigwyr yn y maes. Ni allwn felly ddweud a yw dealltwriaeth y plentyn hynny yn ddigonol ai pheidio, yr ydym wedi selio ein canfyddiadau ar yr hyn yr ydym yn tybio yn dderbyniol.

Nid wyf yn credu bod modd cyffredinolli data o'r fath gan fod aml-ddiwylliannedd yn bwnc mor eang, ac mae gan bobl safbwyntiau gwahanol yn ei gylch ar sail profiadau personol, cefndir a nifer o ffactorau eraill sy'n ein llywio ni fel dynoliaeth. Dangosodd y grŵp ffocws - y tri disgybl y dewison ni, bod safbwyntiau yn amrywio o berson i berson. Yn ganiataol o fewn y grŵp ffocws, rhanna rhai o'r disgyblion yr un farn, gyda'r disgyblion gallu uwch yn arwain y drafodaeth ac yn annog y disgyblion gallu is yn ystod y ddau gyfweiliad. Gan ddweud hyn, yr oedd gan bawb safbwyntiau a theimladau gwahanol ynghylch parch, hyd yn oed ar lefel sylfaenol y derbyn a blwyddyn 1.

Cryfder arall ar ran yr ymchwiliad oedd defnydd pedwar lens Brookfield (2005). Yr oedd yn ddiddorol a defnyddiol cymharu'r wers trwy ein llygaid ni, y plant a'n cyfoed. Diddorol oedd cymharu sut yr aeth y ddwy ohonom ati i ddehongli'r ymchwil ar sail nabod y plant, a'r hyn a welwyd yn ystod y wers. Arfer dda yn sicr a rhywbeth byddwn yn ei ddefnyddio fwy wrth symud ymlaen at PAP 2.

Un gwendid amlwg o ran yr ymchwiliad oedd y ffaith nad oedd modd i ni beilota'r dulliau ymchwil cyn i ni gynnal yr ymchwiliad, ar sail y ffaith bod y cwrs mor fyr a phrysur nad oedd digon o amser i gwblhau popeth. Digwyddodd y prosiect yng nghanol ein PAP 1 ac o ganlyniad yr oedd llwyth gwaith ynghyd ag arsylwadau ffurfiol yn golygu bod prinder amser gennym i baratoi adnoddau a sicrhau bod y wers yn ei le.

Y mae'r profiad yma yn sicr yntau wedi ehangu fy mhrofiadau innau o aml-ddiwylliannedd ac wedi sicrhau y byddaf yn gwneud rhai pethau yn wahanol yn ystod fy mhrofiad addysgol nesaf (PAP 2). Yn dilyn cynnal y prosiect ymchwil hwn yr wyf wedi gweld bod anghenion plant yn ymestyn y tu hwnt i anghenion dysgu fel awtistiaeth, ADHD a dyslecsia yn unig. Mae'r prosiect wedi agor fy llygaid i'r brwydrau a'r anghenion ychwanegol sy'n dod gydag aml-ddiwylliannedd oherwydd diffyg gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad. Wrth symud ymlaen, byddaf yn ceisio sicrhau fy mod yn ymgorffori mwy o ddiwylliant yn fy ngwersi yn drawsgwricwlaidd os yn bosibl, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig i unigolion ddysgu am y byd o'u cwmpas ynghyd a derbyn profiad dilys go iawn. Byddaf hefyd yn ceisio sicrhau bod plant yn dathlu diwylliant ac yn gyffyrddus â'u hunaniaeth ddiwylliannol gan ei bod yn bwysig ein bod yn gwrthio ein cenhedlaeth nesaf i fod yn 'egwyddorol a gwybodus' (Donaldson, 2015) ac i gael gwared ar y stigma a ddaw yn sgil derbyn a dathlu aml-ddiwylliannedd.

Argymhellion

Pe bai gennym fwy o amser, byddem yn ehangu ar ddealltwriaeth y plant yn fwy. Er fy mod yn credu yn yr amser rhoddedig llwyddo ni i wella eu dealltwriaeth o ddiwylliant ac yn bwysicach aml-ddiwylliant, rwy'n credu efallai bod angen a galwad i ddyfnhau'r ddealltwriaeth honno, er mwyn i blant ddeall yn iawn pam bod y gwahanol ddiwylliannau yn cynnig y gwahanol brofiadau i ni, nid dim ond deall bod eisiau i ni barchu y rheini. Gan ddweud hynny, rwy'n credu bod y sylfaen wedi'i osod ar gyfer archwilio'r diwylliannau yn ddyfnach, nid yn unig yn fy ysgol i ond mewn ysgolion eraill, yn enwedig lle nad yw ethnigrwydd/diwylliant mor amlwg yn y gymuned.

Petawn i yn gwneud ymchwil tebyg yn y dyfodol, byddaf bendant yn archwilio ardaloedd/pynciau mwy creadigol, rhywbeth nad yw'r plant yn ymwybodol ohoni, neu heb fawr o ddealltwriaeth yn ei gylch, gan fy mod yn credu'n bersonol eu bod nhw'n ymgysylltu'n well â phynciau newydd, ymarferol sy'n ennyn diddordeb. Gyda chwricwlwm newydd Donaldson ar y gorwel y mae'n bwysig ein bod yn archwilio pob maes addysgu posibl, o ddysgu creadigol yn rhannol ag iechyd a lles, rhywbeth rwy'n credu sydd wedi cymryd sedd gefn tan yn ddiweddar. Dylai creadigrwydd fod yn 'rigorous, grounded in knowledge and skills and should be a balance between freedom and control in all activities' (Joubert, 2001, t.30) ac fe ddylai iechyd a lles caniatáu i blant rhannu emosiynau a phrofiadau gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel er mwyn lleihau'r baich ar unigolion a chynnig cefnogaeth i eraill. Yn bersonol, byddwn i'n ceisio ymgysylltu â'r rhain yn y dyfodol, er mwyn caniatáu i blant fynegi eu hunain, gan fy mod o'r farn bod ymchwil yn y modd yma yn cynhyrchu gwell canlyniadau na rhoi pen i bapur yn yr hirdymor.

Llyfryddiaeth

Amini, M., Ibrahim-González, N., & Ayob, L. (2018). Users' quality expectations in conference interpreting. *International Journal of Multicultural and Multireligious Understanding*. 2(5) t. 1-17.

Arskey, H., & Knight, P (1999). *Interviewing for Social Scientists: An Introductory Resource with Examples*. SAGE. Llundain/America.

Baber, H.E. (2008) *The Multicultural Mystique. The Liberal Case against Diversity*. Efrog Newydd: Prometheus Books.

Banks. J.A., Banks, C.A.M. (Eds.) (6th Ed.) (2007) *Multicultural Education: issues and perspectives*. Wiley: New Jersey.

Banks, J & McGee, C. (2009). *Multicultural Education: Issues and Perspectives*. Routledge. Lloegr.

BERA. (2019). *Ethical Guidelines for Educational Research*. (4th edition). Ar gael ar lein: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online> Darllenwyd: 04/02/2020.

Berk, L. E. (2006). *Child development* (7th ed.). Boston, MA: Allyn & Bacon.

Bolton, K. (2010). *Creativity and world Englishes*. Wiley.

Cooper, D.R. and Schindler, P.S. (2001). *Business Research Methods*. McGraw-Hill Higher Education, Llundain.

Delamont, S. (2002). *Fieldwork in Educational Settings: Methods, Pitfalls and Perspectives* (2nd edn), Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.

Desailly, J. (2012). *Creativity in the primary classroom*. Llundain: SAGE.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Llywodraeth Cymru*. Ar gael ar lein: <https://gwed-dill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>. Darllenwyd: 05/02/2020.

Dudley, P. (2011). *Lesson Study: A Handbook*. Ar gael ar lein: www.lessonstudy.co.uk. Darllenwyd: 03/02/2020.

Dudley, P. (2013). Teacher Learning in Lesson Study: What interaction level discourse analysis revealed about how teachers utilised imagination, tacit knowledge of teaching and fresh evidence of pupils learning, to develop practice knowledge and so enhance their pupils' learning, *Teaching and Teacher Education*, 34 (2013) 107-121.

ESTYN. (2019). *A report on* [REDACTED] Ar gael ar lein: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/> Darllenwyd :27/01/2020

Gerrity, R. (2003). Responding to the cultural and linguistic diversity of refugee babies, toddlers and their families. The First Years Ngā Tau Tuatahi. *Journal of Infant and Toddler Education*. 5(2). Seland Newydd.

- Joubert, M.M. (2001). 'The art of creative teaching: NACCCE and beyond', yn A. Craft, B. Jeffrey and M. Leibling (eds), *Creativity in Education*. Llundain: Chapman.
- Kumar, R (2014). *RESEARCH METHODOLOGY a step-by-step guide for beginners*. (4^{ydd} argraffiad). SAGE. Llundain.
- Llywodraeth Cymru. (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (diwygiedig 2015)*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf>. Darllenwyd 03/02/2020.
- Llywodraeth Cymru. (2020). Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf>. Darllenwyd: 10/02/2020.
- Llywodraeth Cymru. (2020). *Ethnicity by area and ethnic group*. Ar gael ar lein: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup>. Darllenwyd: 03/02/2020.
- Mayall, B. (1999). Children and childhood. Mewn S. Hood, B. Mayall & S. Oliver (eds) *Critical Issues in Social Research: Power and Prejudice*. Philadelphia, PA: Open University Press. t10–24.
- Ministry of Education. (1996). *Te Whàriki: He Whàriki Mātauranga mō ngā Mokopuna o Aotearoa, Early Childhood Curriculum*. Ar gael ar lein: <https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/Te-Whariki-1996.pdf>. Darllenwyd: 04/02/2020.
- Monette, D., Sullivan, T., & DeJong, C. (2011). *Applied Social Research: A Tool for the Human Services*. (8th edition). Brooks/Cole. Belmont
- Papatheodorou, T., Luff, P., & Gill, J. (2013). *Child Observation for Learning and Research*. Routledge. Llundain.
- Parekh, B. (2000). *Rethinking Multiculturalism*. Harvard University Press. America.
- Pathak, P. (2008). *Future of Multicultural Britain: Confronting the Progressive Dilemma*. Edinburgh University Press. Yr Alban.
- Robson, C. (2002) Real World Research (second edition). *British Journal of Medical Psychology*. t349–54.

Sternberg, J. (2005). *Infant Observation at the Heart of Training*. Llundain: Karnac

Strigler, J & Hiebert, J. (1999). *The Teaching Gap: Best Ideas from the World's Teachers for Improving Education in the Classroom*. Free Press. Efrog Newydd.

Tabors, P. O. (1998). What early childhood educators need to know: Developing effective programs for linguistically and culturally diverse children and families. *Young Children*. 53(6).

Tillman, D., & Belgrave, M. (2001). *Living Values Activities for Young Adults*.

UNCRC. (1989). *The United Nations Convention on the Rights of the Child*. Ar gael ar lein: <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/> Darllenwyd: 06/02/2020.

University of Wales Trinity Saint Davids. (2018). *Cod Ymarfer Moeseg ac Integreidd Ymchwil PCYDDS*. Ar gael ar lein: <https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/academic-office/misc-forms/REICoP-17-20-v3-CYM.pdf> . Darllenwyd: 27/01/2020.

Vygotsky, L. S. (1978). *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Wink, J., & Putney, L. (2002). *A vision of Vygotsky*. Boston, MA: Allyn and Bacon.